

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Ysbyty Cefn Coed / Clinig Tawe
(Ward Clyne a Ward Fendrod) /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe
Bro Morgannwg

Dyddiad arolygu: 19 ac 20

Mehefin 2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Medi 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	29
4.	Beth nesaf?	32
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	33
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	34
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol	35
	Atodiad C – Cynllun gwella	36

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl yn Ysbyty Cefn Coed ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 19 ac 20 Mehefin 2018. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Clinig Tawe - Ward Clyne a Ward Fendrod

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd adolygwr enwebedig y Ddeddf Iechyd Meddwl). Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth i gleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Mae AGIC yn edrych ar y ffordd y mae'r gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom y staff ar y ddwy ward yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch. Fodd bynnag, roedd yr amgylchedd yn cyflwyno rhai heriau o ran hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion.

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella o ran darparu gofal diogel ac effeithiol.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom arweinyddiaeth amlwg a chefnogol ar y ddwy ward. Roedd y staff yn gyfarwydd ag anghenion gofal unigol cleifion ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau archwilio clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau, mae angen i'r bwrdd iechyd ailstyried effeithiolrwydd agweddau ar weithgarwch archwilio ar y ddwy ward.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd bod y staff yn trin cleifion yn garedig a gyda thosturi a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion gofal
- Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli yn cael ei harddangos yn glir
- Roedd ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i sicrhau bod y brif fynedfa yn groesawgar a bod yr ardal y tu allan yn ddymunol er mwyn i'r cleifion dreulio amser yno
- Roedd y ddwy ward wedi nodi meysydd i'w gwella ac roeddent yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny drwy raglen gwella ansawdd.
- Gwelwyd bod rheolwyr y wardiau yn arwain mewn ffordd amlwg a chefnogol.
- Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar yr amgylchedd er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr
- Mynd i'r afael â phrinder dodrefn yn yr ystafelloedd gwely er mwyn hyrwyddo lles cleifion
- Cadarnhau bod offer argyfwng yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Agweddau ar gadw cofnodion a threfnu cofnodion er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau cadw cofnodion proffesiynol a sicrhau ei bod hi'n haws mynd drwyddynt
- Cynlluniau gofal a thriniaeth i ddangos eu bod yn cael eu datblygu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Agweddau ar archwilio clinigol er mwyn sicrhau ei fod yn hyrwyddo gwelliant mewn ffordd effeithiol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Cefn Coed yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Bryn Derwen, Cocyd, Abertawe, SA2 OGH ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty yn cynnwys y canlynol:

- Mae Clinig Tawe yn darparu asesiadau, ymyriadau therapiwtig a chymorth i unigolion sy'n profi cyfnod o salwch meddwl aciwt lle mae angen gofal cleifion allanol.
- Mae Gwelfor yn darparu gwasanaeth adsefydlu llif araf a gwasanaeth camu i lawr.

Mae gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl llif araf yn rhoi'r cyfle i gleifion gyflawni nodau, dod yn fwy annibynnol a sicrhau nad ydynt yn colli unrhyw gynnydd y maent wedi'i wneud cyn dychwelyd i'r gymuned ehangach. Mae unedau camu i lawr yn rhoi'r cymorth a'r gofal sydd eu hangen ar bobl cyn iddynt ddychwelyd i'r gymuned ehangach

- Mae Ysbryd y Coed yn darparu asesiadau estynedig, triniaeth ac amrywiaeth o ymyriadau therapiwtig i gleifion na allant, am ryw reswm neu'i gilydd, gael eu rheoli mewn unrhyw leoliad arall yn ystod y cyfnod hwnnw yn eu salwch.

Ar gyfer yr arolygiad hwn, ystyriwyd Ward Clyne a Ward Fendrod yng Nghlinig Tawe.

Mae Ward Clyne yn darparu 14 o welyau i gleifion mewnol sy'n ferched ac mae Ward Fendrod yn darparu 20 o welyau i gleifion mewnol sy'n ddynion. Ar adeg ein harolygiad, roedd 12 o gleifion ar Ward Clyne ac 20 o gleifion ar Ward Fendrod.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom staff ar y ddwy ward yn trin cleifion yn garedig a gyda pharch. Cadarnhaodd y cleifion hynny y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn ymddwyn yn garedig tuag atynt.

Roedd timau'r wardiau wedi nodi bod angen gwella'r gweithgareddau a ddarparwyd a disgrifiwyd a dangoswyd camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Roedd ymdrech sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod yr iardiau yn lleoedd dymunol lle gallai cleifion dreulio amser yn yr awyr agored.

Roedd yr amgylchedd yn cyflwyno rhai heriau o ran hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion. Nodwyd bod angen gwella hyn.

Nodwyd hefyd y gellid darparu mwy o wybodaeth i gleifion am rôl AGIC a sut y gallai cleifion wneud cwyn.

Cadw'n iach

Gwelsom fod rhywfaint o ddeunydd hybu iechyd ar gael, gan gynnwys sesiynau lles a drefnwyd drwy raglen 'Living Life Well'¹ a thaflenni ar gyflyrau iechyd meddwl. Roedd y wybodaeth am raglen 'Living Life Well' wedi dyddio gan ei bod yn ymwneud â rhaglen 2016. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am sut y gallai cleifion wella eu hiechyd corfforol.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod cleifion ar y ddwy ward yn ymgymryd â gweithgareddau dan do yn bennaf, fel gwyllo'r teledu, darllen, chwarae gemau

¹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/page/47545>

geiriau mewn grŵp a chwarae pŵl. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw y gallent fynd am dro yn yr awyr agored. Roedd iardiau ar gael y tu allan y gallai cleifion ar y ddwy ward eu defnyddio. Gwelsom fod ymdrech sylweddol wedi'i wneud i sicrhau bod y rhain yn lleoedd dymunol lle y gallai cleifion dreulio amser. Fodd bynnag, roedd angen glanhau'r iard (a'r ardal smygu ddynodedig) a ddefnyddiwyd gan gleifion ar Ward Clyne, yn enwedig y canopi.

Roedd timau'r wardiau wedi nodi bod angen gwella'r gweithgareddau ystyrlon a ddarparwyd. Roedd cydgysylltydd gweithgareddau wedi'i benodi'n ddiweddar i gefnogi cleifion ar Ward Fendrod a'r bwriad oedd penodi cydgysylltwyr gweithgareddau ar gyfer Ward Clyne hefyd. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno am gyfnod prawf ac roedd disgwyl iddynt gael eu hadolygu ar ôl chwe mis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth hybu iechyd berthnasol a chyfoes.

Gofal ag urddas

Nid oedd amgylchedd y wardiau yn cyrraedd y safonau cyfredol² ar gyfer unedau iechyd meddwl aciwt i oedolion. Roedd hyn yn cyflwyno heriau ynghylch agweddau ar ofal gydag urddas.

Roedd y ddwy ward yn darparu llety i'r naill ryw neu'r llall. Roedd gan bob claf ar Ward Clyne ei ystafell wely ei hun. Roedd gan y rhan fwyaf o gleifion ar Ward Fendrod eu hystafell wely eu hunain (roedd dwy ystafell wely yn cael eu rhannu, gyda dau wely ym mhob un). Roedd y trefniadau hyn yn helpu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion i ryw raddau.

²Nodyn Adeiladau Iechyd yng Nghymru (WHBN) 03-01 - Unedau Iechyd Meddwl Acíwt i Oedolion (Saesneg yn unig)

<http://www.nwssp.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1178/WHBN%2003-01%20Adult%20Acute%20Mental%20Health%20Units%20-%20final.pdf>

Er bod y lolfeydd cymunedol a'r ystafelloedd bwyta ar y ddwy ward wedi'u dodrefnu er mwyn darparu amgylchedd cartrefol, gwelsom nad oedd llawer o ddodrefn yn ystafelloedd gwely'r cleifion ac nad oeddent yn groesawgar. Ychydig iawn o ddodrefn oedd yn yr ystafelloedd gwely ar y ddwy ward, gyda dim ond gwely a chwpwrdd i storio dillad. Er bod rhai cleifion ar Ward Clyne wedi mynd ati i wneud eu hystafelloedd gwely yn fannau mwy personol gyda lluniau, ni welwyd hyn ar Ward Fendrod. Hefyd, roedd y llenni ar ffenestri'r ystafelloedd gwely ar Ward Fendrod wedi'u gwneud o bapur tafladwy er mwyn atal a rheoli heintiau'n effeithiol. Roedd y llenni hyn yn edrych yn llwm a chlinigol ac roedd amheuaeth p'un a fyddent yn cau digon o oleuni allan i alluogi'r cleifion i gael noson dda o gwsg. Roedd rhai o'r ystafelloedd gwely ar Ward Fendrod yn teimlo'n oer hefyd.

Roedd gan ddrysau'r ystafelloedd gwely ar y ddwy ward baneli y gellir gweld drwyddynt y gellir eu hagor a'u cau. Caiff y rhain eu defnyddio gan y staff, yn enwedig yn ystod y nos, i gadarnhau bod cleifion yn ddiogel heb aflonyddu arnynt. Yn ystod taith o'r wardiau, gwelsom fod rhai ohonynt ar agor, a hynny'n ddiangen. Roedd hyn yn golygu nad oedd preifatrwydd cleifion yn cael ei hyrwyddo cymaint â phosibl. Hefyd, ni allai cleifion weithredu'r holl baneli o'u hystafelloedd gwely.

Eglurodd uwch aelodau o staff y byddai cleifion, fel rhan o'u cyfnod adsefydlu, yn cael cyfnodau i ffwrdd o'r uned. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod ystafelloedd gwely cleifion yn cael eu gadael yn wag rhag ofn y byddai angen iddynt ddychwelyd yn gynnar, soniwyd wrthym nad oedd modd gwarantu y byddai hynny'n digwydd bob amser a hynny oherwydd y galwadau ar y gwasanaeth am welyau i gleifion mewnol. Yn sgil hynny, roedd cleifion yn gorfod cael eu hanfon i uned arall ar safle'r ysbyty neu uned rywle arall o fewn y bwrdd iechyd. Gallai hyn gael effaith negyddol ar brofiad y claf.

Roedd yr holl gyfleusterau ymolchi a'r toiledau ar y ddwy ward yn cael eu rhannu.

Prin iawn oedd y lle a oedd ar gael oddi ar y wardiau i gleifion gyfarfod â'u teuluoedd yn breifat a chael sgysiau preifat. Gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i greu ystafell addas ger Ward Fendrod a allai gael ei defnyddio gan gleifion ar y ddwy ward.

Gallai cleifion ar Ward Clyne ddefnyddio ystafell dawel ger y lolfâ gymunedol ar y ward. Gallai cleifion ar Ward Fendrod ddefnyddio'r ystafell fwyta ar wahân ar y ward. Er bod yr ardaloedd hyn yn rhoi rhywfaint o breifatrwydd, gellid tarfu ar gleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a welsom wedi'u gwisgo'n briodol er mwyn cynnal eu hurddas. Gwelsom enghreifftiau niferus o staff yn ymddwyn yn garedig tuag at gleifion ac yn eu trin â pharch. Cadarnhaodd y cleifion hynny y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn garedig tuag atynt.

Gwelsom fod cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel gyda'r nod o atal mynediad anawdurdodedig at wybodaeth gyfrinachol. Roedd y ddwy ward yn defnyddio Byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion. Roedd gwybodaeth bwysig am gleifion yn cael ei chofnodi ar y byrddau er mwyn helpu staff i roi gofal i'r cleifion. Roedd y ddau fwrdd wedi'u lleoli yn y swyddfeydd ar y ddwy ward. Gallai'r rhain gael eu gorchuddio pan na fyddent yn cael eu defnyddio er mwyn diogel gwybodaeth am gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- darparu digon o ddodrefn priodol yn ystafelloedd gwely'r cleifion, gan ystyried safonau cyfredol ac anghenion gofal unigol cleifion
- hyrwyddo preifatrwydd cleifion pan fydd cleifion yn eu hystafelloedd gwely
- sicrhau bod ystafelloedd gwely cleifion yn cael eu cadw ar dymheredd cyfforddus

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod llai o gleifion yn gorfod cael eu hadleoli i unedau eraill pan fydd angen iddynt ddychwelyd ar ôl cyfnod i ffwrdd.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gofal a roddir iddynt, yn ogystal â manylion sefydliadau a all roi help a chefnogaeth i gleifion sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau iechyd meddwl. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli yn cael ei harddangos yn glir.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gall cleifion a'u teuluoedd roi adborth am eu profiadau o'r gofal a roddir ar y wardiau. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai cleifion godi pryder (cwyno) am y gofal roeddent yn ei gael (gweler yr adran Gwrando a dysgu o adborth) ar y naill ward a'r llall.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ychwaith am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a sut y gall cleifion gysylltu â ni. Mae hyn yn ofynnol o dan God Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983³.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom ryngweithio cyfeillgar ond proffesiynol rhwng staff a chleifion ar y ddwy ward. Roedd y staff yn cymryd eu hamser ac yn defnyddio iaith briodol wrth siarad â chleifion er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn yr oeddent yn ei ddweud.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Nid oedd pob claf yn cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion anffurfiol⁴ a oedd yn aros ar y wardiau am eu hawl i adael.

Adolygwyd sampl o gofnodion gofal ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar y ddwy ward. Gwelsom fod y ddogfennaeth sydd ei hangen o dan y ddeddfwriaeth ar waith. Roedd hyn yn dangos bod hawliau cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

³ Mae Cod Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Diwygiwyd 2016) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol am eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Yn ogystal â rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol, mae'r Cod Ymarfer hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/code-of-practice/?lang=cy>

⁴ Claf anffurfiol yw rhywun sy'n cael ei drin am anhwylder meddyliol yn yr ysbyty ond nad yw'n cael ei gadw o dan y Ddeddf (fe'i gelwir hefyd weithiau yn glaf gwirfoddol).

Roedd gwybodaeth a oedd yn hysbysu cleifion am eu hawl i ddefnyddio gwasanaethau eirioli yn cael ei harddangos yn glir ar y ddwy ward.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd ystafell ar gael lle y gallai cleifion gyfarfod â'u teuluoedd yn breifat. Gallai cleifion hefyd ddefnyddio eu ffonau symudol i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd modd i'r cleifion hynny nad oedd ganddynt ffôn symudol ddefnyddio ffonau'r wardiau.

Gwrando a dysgu o'r adborth

Roedd gan y bwrdd iechyd drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth am eu profiadau a chodi pryder (cwyno) am y gofal yr oeddent yn ei gael.

Er bod gwybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallai cleifion a'u teuluoedd roi adborth, nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos am y ffordd y gallent godi pryder (cwyno) am y gofal roeddent yn ei gael. Roedd gwybodaeth gyfyngedig am y weithdrefn gwyno ar gael yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion ar gyfer pob ward. Dim ond manylion y sawl y gallai cleifion gysylltu â nhw yn yr ysbyty a nodwyd yn y llyfryn hwn. Nid oedd unrhyw sôn am drefniadau Gweithio i Wella⁵. Dylai cleifion gael mynediad at y wybodaeth hon heb iddynt orfod gofyn amdani.

Cadarnhaodd uwch aelodau o staff y wardiau eu bod yn ceisio datrys cwynion yn syth lle bynnag y bo'n bosibl. Lle nad oedd hyn yn bosibl, roeddent yn ymwybodol y gallai cleifion uwchgyfeirio eu pryder (cwyn) drwy weithdrefn y bwrdd iechyd. Roedd hi'n ymddangos nad oedd uwch aelodau o staff y wardiau yn ymateb i gwynion mewn ffordd gyson. Hysbyswyd rheolwyr yr ysbyty o'n canfyddiadau er mwyn iddynt allu ymchwilio i hyn ymhellach a chymryd camau priodol fel y bo angen.

⁵ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth glir a chynhwysfawr am y ffordd y gallant godi pryder (cwyno) am y gofal y maent wedi'i gael.

Wrth ddarparu gwybodaeth, mae'n rhaid ystyried y trefniadau Gweithio i Wella.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd nifer o feysydd i'w gwella o ran darparu gofal diogel ac effeithiol, gan gynnwys gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn fwy diogel a bod yr offer a ddefnyddir mewn argyfwng (claf yn llewygu) yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Hefyd, nodwyd agweddau ar gadw cofnodion yr oedd angen eu gwella.

Nid oedd cofnodion gofal cleifion bob amser yn dangos bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu datblygu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella'r broses o gwblhau siartiau cyffuriau ar Ward Clyne.

Gwelsom fod camau yn cael eu cymryd i wneud gwelliannau drwy raglen gwella ansawdd y cytunwyd arni.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Mae Clinig Tawe wedi'i lleoli yn adeilad gwreiddiol Ysbyty Cefn Coed ac mae'n cynnwys dwy ward, sef Ward Clyne a Ward Fendrod.

Mae mynediad gwastad at brif fynedfa'r adeilad a Ward Clyne. Mae hyn yn golygu bod mynediad at y ward yn haws i gleifion ac ymwelwyr sydd ag anawsterau symudedd. Gwelsom fod ymdrech sylweddol wedi'i wneud i ddangos y brif fynedfa'n glir a gwneud yr ardal o'i hamgylch yn ddymunol ac yn groesawgar i gleifion ac ymwelwyr â'r ysbyty. Mae hyn i'w ganmol.

Mae Ward Fendrod wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad a dim ond drwy ddringo'r grisiau y gellir cael mynediad ati. Er nad yw'n uned dan glo, ar

ddiwrnodau ein harolygiad roedd y ddwy ward dan glo oherwydd anghenion gofal rhai o'r cleifion. Gwnaed hyn er mwyn hyrwyddo diogelwch y cleifion hyn.

Roedd hi'n ymddangos bod y ddwy ward yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac roedd systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni. Yn ystod taith o'r wardiau, nodwyd peryglon amgylcheddol amlwg yr oedd angen rhoi sylw iddynt gan gynnwys pwyntiau clymu posibl ar y ddwy ward, trac o hen lifft grisiau a oedd ynghlwm wrth y grisiau rhwng y ddwy ward a llawr rhydd ar y grisiau y gallai pobl faglu drosto. Hysbyswyd uwch aelodau o staff am y peryglon hyn er mwyn iddynt fynd i'r afael â nhw. Gwelsom fylchau hefyd o amgylch rhai o ddrysau'r ystafelloedd gwely ar Ward Fendrod, lle nad oedd y seliau tân yn ffitio'n iawn.

O ran pwyntiau clymu, roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom fod rheolaethau wedi'u nodi er mwyn lliniaru'r risg. Fodd bynnag, ar Ward Clyne, gwelsom fod y deunydd a oedd yn gorchuddio ceblau trydanol/erial y teledu ar goll. Ar Ward Fendrod, roedd yr asesiad risg yn nodi bod cais wedi'i wneud i adfer nifer o ardaloedd ond nid oedd hi'n glir a oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau ai peidio.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd angen glanhau'r iard y tu allan i Ward Clyne, gan gynnwys y canopi a oedd yn gorchuddio rhan o'r iard. Nodwyd bod y canopi yn cael ei lanhau ond bod angen i'r staff wneud cais yn gyntaf. Dylid rhoi trefniadau ar waith i'w lanhau'n rheolaidd fel rhan o raglen dreigl o waith glanhau a chynnal a chadw, yn hytrach na thrwy gais yn unig.

Roedd ystafell smygu i gleifion wedi'i lleoli ar Ward Fendrod. Roedd yr ystafell hon yn cael ei hawyru er mwyn cael gwared ar y mwg a sylwyd bod y drws yn cael ei gau pan roedd cleifion yn defnyddio'r ystafell. Fodd bynnag, roedd arogl mwg yn amlwg o hyd ar ein hymweliad cyntaf â'r ward. Gallai'r staff weld y cleifion a oedd yn defnyddio'r ystafell o'r tu allan i'r ystafell er budd diogelwch staff a chleifion. Roedd asesiad risg ysgrifenedig wedi'i gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr asesiad yn cyfeirio at enw blaenorol y bwrdd iechyd (Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg). Dylai'r bwrdd iechyd fodloni ei hun bod yr asesiad risg yn cydymffurfio â'r trefniadau rheoli risg cyfredol.

Roedd ystafelloedd a chypyrddau storio yn cael eu cloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a damweiniol gan gleifion ac ymwelwyr â'r wardiau.

Roedd system larwm wedi'i gosod ar y ddwy ward. Roedd y system hon yn cael ei defnyddio gan staff i alw am gymorth mewn argyfwng. Roedd gan y staff larymau personol hefyd y gallent eu gwisgo. Gwelsom nad oedd nifer o'r staff yn gwisgo'r larymau hyn, a hynny o ddewis gan eu bod o'r farn nad oedd fawr

ddim risg i'w diogelwch, os o gwbl. Ar y ddwy ward, cawsom wybod fod y pwyntiau galw yn ystafelloedd gwely cleifion wedi cael eu dadactifadu, a hynny oherwydd nifer o alwadau ffug. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu na fyddai staff yn yr ardaloedd hyn (nad oeddent yn gwisgo larymau personol) yn gallu galw am gymorth heb adael yr ardal. Nid oedd unrhyw system galw ychwaith i gleifion alw am gymorth pan oeddent yn eu hystafelloedd gwely. Er mwyn lliniaru'r risg o niwed i gleifion, nodwyd y gallai staff actifadu larymau mewn ystafelloedd gwely unigol a mynd i weld cleifion yn rheolaidd.

Nodwyd bod pwyntiau galw yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau a rennir yn gweithio. Cadarnhawyd hyn ar Ward Clyne a gallai'r larwm gael ei glywed yn hawdd mewn rhannau eraill o'r ward.

Rhoddodd uwch aelodau o staff y wardiau grynoded⁶ o'r hyfforddiant a gwblhawyd gan staff. Ystyriwyd yr hyfforddiant hwnnw mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Dangosodd hyn fod pob aelod o staff ar Ward Clyne wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf ar drais ac ymddygiad ymosodol a bod y rhan fwyaf ohonynt wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelwch tân (tua 90 y cant ohonynt). Nodwyd bod angen gwella hyfforddiant ar symud a thrin cleifion gan fod llai na hanner y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd bod llai o gydymffurfiaeth â hyfforddiant symud a thrin cleifion ers mis Awst 2017.

Roedd pob aelod o staff ar Ward Fendrod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- mynd i'r afael â'r peryglon amgylcheddol a nodwyd yn ystod yr arolygiad a lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr
- cadarnhau y byddai'r seliau tân o amgylch drysau yn effeithiol pe bai tân
- cwblhau'r gwaith hwnnw sy'n weddill a nodwyd yn yr asesiadau risg o

⁶ Roedd y crynodeb o'r hyfforddiant yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2017 a mis Mai 2018.

amgylchedd y wardiau

- nodi'r gwaith glanhau a chynnal a chadw sydd ei angen yn rheolaidd a'i gynnwys mewn rhaglen waith dreigl
- bodloni ei hun bod y trefniadau awyru ar gyfer yr ystafell smygu yn ddigonol
- bodloni ei hun bod yr asesiad risg ar gyfer yr ystafell smygu ar Ward Fendrod yn cydymffurfio â threfniadau rheoli risg cyfredol, a chymryd camau cywirol lle y bo angen i hyrwyddo iechyd a diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr
- sicrhau bod gan staff ffordd addas o alw am gymorth mewn argyfwng bob amser er mwyn budd eu diogelwch nhw a diogelwch cleifion
- sicrhau bod gan gleifion ffordd addas o alw am gymorth gan staff pan fyddant yn eu hystafelloedd gwely.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod Ward Clyne yn lân ac yn daclus ar y cyfan ar ddau ddiwrnod ein harolygiad. Ymwelwyd â Ward Fendrod yn ystod y prynhawn ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad a nodwyd y gellid mynd ati i wella glanweithdra'r cyfleusterau ymolchi/toiledau a rennir. Gwelsom welliant yn hyn o beth ar yr ail ddiwrnod.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo, ynghyd â gel saniteiddio dwylo, ar gael ar y ddwy ward. Roedd posteri yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i olchi dwylo'n dda yn cael eu harddangos hefyd. Mae'n bwysig golchi dwylo'n dda er mwyn lleihau croes-heintio.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol priodol fel menig a ffedogau tafladwy ar gael i'r staff eu defnyddio er mwyn lleihau croes-heintio. Gwelsom fod cemegion a chyfarpar glanhau yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i gael gwared ar offer miniog meddygol (nodwyddau) yn ddiogel mewn biniau lliw a gynlluniwyd at y diben hwn. Er bod y clawr diogelwch ar y bin a oedd yn cael ei ddefnyddio ar Ward Clyne ar gau, roedd y clawr ar y bin a oedd yn cael ei ddefnyddio ar Ward Fendrod ar agor. Gallai hyn gynyddu'r risg y gallai staff gael eu hanafu gan nodwyddau a oedd wedi cael eu defnyddio.

Nodwyd bod system o archwiliadau rheolaidd ar waith ar gyfer y ddwy ward yr ymwelwyd â nhw o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd yr archwiliadau hyn gyda'r

nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen.

Dangosodd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd gan uwch aelodau o staff y wardiau fod y rhan fwyaf o'r staff ar Ward Clyne wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf ar atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nodwyd bod llai o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ers mis Awst 2017. Roedd pob aelod o staff ar Ward Fendrod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diweddaraf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer miniog meddygol yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion sy'n aros i gael eu gwaredu.

Maeth a hydradu

Gwelsom fod cleifion yn cael dewis o fwyd a diod. Y tu hwnt i'r prif adegau bwyd, roedd byrbrydau a diodydd ar gael drwy gydol y dydd. Roedd y prif brydau yn cael eu paratoi ymlaen llaw oddi ar y safle ac yn cael eu dosbarthu i'r wardiau mewn cynwysyddion wedi'u pacio'n barod. Yna, roeddent yn cael eu gwresogi gan staff gweini cyn cael eu rhoi i'r cleifion.

Gwelsom brydau yn cael eu gweini ar y ddwy ward. Nid oedd y dewis ar y fwydlen ar gyfer y diwrnod yn cael ei arddangos; fodd bynnag, roedd staff yn fwy na pharod i egluro'r dewis a oedd ar gael. Roedd yr ystafelloedd cinio ar y ddwy ward yn lân ac yn dactylus ac yn cynnig amgylcheddau addas i gleifion fwyta eu prydau. Roedd y cleifion yn ymddangos fel pe baent yn mwynhau'r prydau a ddarparwyd.

Roedd gan y ddwy ward geginau y gallai cleifion eu defnyddio. Defnyddiwyd dull yn seiliedig ar risg i nodi lefel yr oruchwyliaeth yr oedd ei hangen ar gleifion gan staff pan oeddent yn defnyddio'r ceginau.

Roedd clwb brecwast yn cael ei gynnal ar y ddwy ward, ddeuddydd yr wythnos. Roedd y clwb hwn yn cynnig cyfleoedd i'r cleifion ryngweithio'n gymdeithasol a helpu i baratoi, coginio a bwyta brecwast gyda'i gilydd fel rhan o'u rhaglen adsefydlu. Roedd y clwb hwn yn rhan o'r rhaglen weithgareddau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y ddwy ward ystafelloedd dynodedig y gellid eu cloi ar gyfer storio meddyginiaethau. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth ar y ddwy ward er mwyn helpu i rwystro unigolion

anawdurdodedig rhag cael gafael ar feddyginiaethau. Roedd oergelloedd y gellid eu cloi ar gyfer storio meddyginiaethau y mae angen eu cadw'n oer wedi'u lleoli yn y ddwy ystafell hefyd. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod tymheredd yr oergelloedd wedi cael ei wirio'n rheolaidd, a hynny er mwyn cadarnhau bod y meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, nid oedd tymheredd yr ystafelloedd triniaeth yn cael ei wirio. Roedd hyn yn golygu nad oedd sicrwydd bod meddyginiaethau eraill yn cael eu storio ar dymheredd priodol. Mae hwn yn fater pwysig o ran diogelwch cleifion.⁷

Roedd gan staff fynediad at bolisi a oedd yn anelu at sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel ar yr uned. Nodwyd trefniadau ar gyfer archebu a derbyn meddyginiaethau yn effeithiol, gan gynnwys meddyginiaethau yr oedd eu hangen mewn argyfwng. Roedd staff y fferyllfa ar gael i roi help a chyngor i staff ar y meddyginiaethau a ddefnyddir ar y wardiau.

Roedd polisi llonyddu cyflym ar waith. Nod y polisi hwn oedd sicrhau bod meddyginiaeth llonyddu yn cael ei defnyddio'n ddiogel.

Roedd Cyffuriau a Reolir, y mae trefniadau rheoli llym a phenodol iawn ynghlwm wrthynt, yn cael eu rheoli'n ddiogel ar y ddwy ward. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi cynnal gwiriadau stoc rheolaidd o gyffuriau a reolir.

Adolygwyd sampl o siartiau cyffuriau cleifion ar y ddwy ward. Roedd disgwyl i'r staff lofnodi'r siartiau i ddangos bod meddyginiaeth wedi'i rhoi neu ddefnyddio cod i egluro pam nad oedd meddyginiaeth wedi'i rhoi. Gwelsom nad oedd y siartiau cyffuriau a ddefnyddiwyd ar Ward Clyne wedi'u lofnodi bob amser ac nad oedd cod wedi'i ddefnyddio bob amser ychwaith. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr a oedd cleifion wedi cael y feddyginiaeth a ragnodwyd iddynt. Roedd y siartiau cyffuriau a ddefnyddiwyd ar Ward Fendrod wedi'u cwblhau'n gywir yn hyn o beth.

⁷ Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030 / Ebrill 2016, Storio meddyginiaethau yn ddiogel: Cypyrddau (Saesneg yn unig)
<http://www.patientsafety.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1104/PSN030%20Safe%20storage%20of%20medicines%20cupboards.pdf>

Roedd manylion adnabod cleifion wedi'u cofnodi ar y siartiau ond, ar y ddwy ward, gwelsom nad oedd y manylion hyn wedi'u cofnodi ar bob tudalen. Gallai hyn gynyddu'r risg y bydd camgymeriadau'n digwydd wrth roi meddyginiaeth.

Gwelsom fod statws cyfreithiol Deddf Iechyd Meddwl cleifion yn cael ei gofnodi ar y siartiau cyffuriau a ddefnyddiwyd ar Ward Fendrod ond nid oedd bob amser yn cael ei nodi ar y siartiau a ddefnyddiwyd ar Ward Clyne. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael y feddyginiaeth gywir a bod eu hawliau yn cael eu diogelu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- dangos bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan eu gwneuthurwyr

Rhaid ystyried Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030 / Ebrill 2016, Storio meddyginiaethau yn ddiogel: Cypyrddau

- sicrhau bod siartiau cyffuriau yn cael eu cwblhau'n gywir gan staff nyrsio yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y ddwy ward yn darparu gofal i oedolion yn unig. Roedd gan staff y wardiau fynediad at weithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy ei fewnwyd. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe baent yn amau camdriniaeth.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig ar gael. Roedd hyn yn golygu bod unigolyn a enwyd y gallai staff y wardiau gysylltu ag ef i gael help a chynghor ar faterion diogelu.

Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd gan uwch aelodau o staff y wardiau fod y rhan fwyaf o'r staff ar Ward Clyne a phob aelod o staff ar Ward Fendrod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant diogelu diweddaraf.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod gan y ddwy ward fynediad at offer y gellid ei ddefnyddio er mwyn ymateb i argyfwng (claf yn llewygu). Pe bai claf yn llewygu, nodwyd y byddai staff y ward yn ffonio 999 ac yn rhoi cymorth cynnal bywyd tan bod yr ambiwlans yn cyrraedd.

Ar Ward Clyne, roedd yr offer argyfwng yn cael ei storio yn yr ystafell driniaeth/archwilio ac roedd angen i'r staff ddatgloi dau ddrws er mwyn cael gafael arno. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried opsiynau eraill ar gyfer storio'r offer hwn er mwyn sicrhau bod modd cael gafael arno'n haws mewn argyfwng. Roedd yr offer ar Ward Fendrod yn cael ei storio mewn lleoliad canolog yn y swyddfa. Roedd torwyr clymau ar gael ar y ddwy ward ac yn cael eu storio ar wahân i'r offer argyfwng. O ystyried y gallai fod angen defnyddio'r torwyr clymau a'r offer argyfwng ar yr un pryd, dylai'r bwrdd iechyd ystyried eu storio gyda'i gilydd, yn amodol ar gwblhau asesiad risg addas.

Roedd cofnodion yn dangos bod gwiriadau wedi'u cynnal ar yr offer argyfwng ar y ddwy ward. Cadarnhaodd y staff fod angen i'r rhain gael eu cynnal yn ddyddiol. Er i'r cofnodion ddangos bod gwiriadau dyddiol wedi'u cwblhau ar Ward Clyne, roedd nifer o fylchau yn y cofnodion ar gyfer Ward Fendrod. Roedd dyddiadau dod i ben rhai eitemau o offer wedi mynd heibio hefyd. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr eitemau hyn o bosibl yn ddiogel i'w defnyddio. Hysbyswyd yr uwch reolwyr o'n canfyddiadau a chymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Dangosodd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd gan uwch aelodau o staff fod pob aelod o staff ar y ddwy ward wedi ymgymryd â'r hyfforddiant dadebru diweddaraf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer argyfwng ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio bob amser.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dangosodd y staff ar y ddwy ward eu bod yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn helpu cleifion i hyrwyddo eu diogelwch a'u lles.

Gwelsom fod angen gwelliant er mwyn dangos bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (gweler yr adran - Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal).

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu

defnyddio ac y byddai staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn rhoi achos i bryderu amdano. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Pan roedd angen i glaf gael ei rwystro'n gorfforol, nodwyd bod trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y claf. Nid oedd gan y naill ward na'r llall ardaloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer neilltuaeth⁸.

Roedd y ddwy ward yn darparu gofal seiciatrig aciwt i gleifion mewnol. Drwy adolygu cofnodion gofal a siarad â staff, roedd hi'n amlwg bod rhai cleifion wedi bod yn gleifion mewnol ers amser hir. Cadarnhaodd uwch aelodau o staff fod ffocws parhaus ar ddod o hyd i leoliadau hirdymor mwy priodol i gleifion. Roedd y trefniadau ar gyfer monitro achosion cymhleth wedi newid yn ddiweddar a nododd uwch aelodau o staff y dylai hyn arwain at welliannau yn hyn o beth.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Roedd y ddwy ward wedi nodi meysydd i'w gwella. Roedd y rhain yn ymwneud â'r broses gynllunio ac ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth cysylltiedig a gwneud y gorau o gyfleoedd i ymgysylltu â gofalwyr.

Roedd unigolion allweddol wedi'u nodi i gydgyssylltu a hwyluso'r gwaith hwn drwy broses a rhaglen gwella ansawdd ffurfiol y cytunwyd arnynt. Megis dechrau oedd y gwaith hwn ond gwelsom dystiolaeth bod camau yn cael eu cymryd i gyflawni'r gwelliant yr oedd ei angen. Mae hyn yn dangos ymrwymiad i wella gwasanaethau i gleifion a dylid ei ganmol.

Cadw cofnodion

Gwelsom fod y cofnodion a oedd yn cael eu cadw yn yr uned yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Roedd y staff yn gwybod ble i ddod o hyd i gofnodion perthnasol ac roeddent yn gallu darparu'r cofnodion hyn yn amserol pan ofynnwyd amdanynt.

⁸ Cyfyngu ac ynysu claf dan oruchwyliaeth, i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill, mewn ardal y caiff y claf ei rwystro rhag ei gadael, lle mae angen gwneud hynny ar unwaith er mwyn cyfyngu ar ymyrraeth ymddygiadol ddifrifol sy'n debygol o achosi niwed i eraill. (Cod Ymarfer Cymru (2016) ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983)

Adolygwyd cofnodion gofal wyth claf. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau gofal a thriniaeth a dogfennaeth cadw statudol. Roedd cofnodion papur yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod ymdrech wedi'i wneud i drefnu'r wybodaeth gan ddefnyddio rhanwyr o fewn y cynlluniau gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, roedd hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth mewn rhai o'r cynlluniau gan fod cofnodion papur wedi'u ffeilio mewn ffordd anghyson. Yn yr un modd, roedd y ffeiliau a oedd yn cynnwys dogfennaeth cadw statudol yn orlawn weithiau a oedd yn golygu ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth.

Nodir ein canfyddiadau penodol o ran ansawdd cofnodion gofal yn yr adrannau canlynol.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pedwar claf ar y ddwy ward yn yr uned.

Roedd ceisiadau i gadw cleifion wedi'u gwneud yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y rhain yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Roedd y ffeiliau yn cael eu cadw'n ddiogel ar yr uned ond roedd hi'n hawdd i'r aelodau o staff yr oedd angen iddynt weld y ffeiliau hynny gael gafael arnynt.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd rhai o'r ffeiliau'n orlawn a oedd yn golygu ei bod hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth. Nodwyd nad oedd dogfennaeth gysylltiedig wedi'i dyddio na'i llofnodi bob amser. Roedd rhai o'r cofnodion ysgrifenedig yn anodd iawn eu darllen hefyd. Yn ogystal, nid oedd rhai o'r ffeiliau yn cynnwys unrhyw gofnodion gan y Clinigydd Cyfrifol i ategu'r penderfyniadau clinigol a wnaed mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd copïau o God Ymarfer Cymru ar Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fersiynau Cymraeg a Saesneg) ar gael i staff, cleifion, perthnasau a phartion eraill â diddordeb, ac mae hynny'n ganmoladwy.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod dogfennaeth sy'n gysylltiedig â dogfennaeth gadw statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei chwblhau'n llawn gan aelodau perthnasol o staff a bod y cofnodion a wneir yn ddarllenadwy
- sicrhau nad yw ffeiliau unigol yn orlawn o ran dogfennaeth.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pedwar claf i gyd. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau gofal cleifion ar y ddwy ward.

Ward Clyne

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd rhanwyr yn cael eu defnyddio i drefnu'r cofnodion gofal yn adrannau ar wahân. Er gwaethaf hyn, roedd hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth yn y cofnodion gofal ar Ward Clyne, yn bennaf am nad oedd y ddogfennaeth bapur wedi'i ffeilio yn yr adran gywir o'r cofnod gofal.

Roedd tystiolaeth yng nghofnodion gofal y ddau glaf bod asesiadau unigol wedi'u cwblhau. Er bod asesiad un claf yn ystyried y meysydd bywyd a nodir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, nid oedd asesiad y claf arall yn gwneud hynny. Weithiau, nid oedd y ddogfennaeth a ddefnyddiwyd i gwblhau asesiadau iechyd corfforol yn gyflawn.

Roedd gan y ddau glaf gynllun gofal a thriniaeth. Roedd cynllun un claf yn gynhwysfawr ac yn mynd i'r afael â'r meysydd bywyd a nodir yn y Mesur. Nid oedd y cynllun a ddatblygwyd ar gyfer y claf arall yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos p'un a oedd y cleifion neu eu perthnasau agosaf wedi bod yn gysylltiedig â'r broses cynllunio gofal a ph'un a oedd y cleifion wedi cytuno â'u cynlluniau. Nid oedd yn glir ychwaith p'un a oedd cydgysylltydd gofal wedi'i nodi ar gyfer un claf. Yn ogystal, roedd un o'r cynlluniau yn cyfeirio at enw heblaw am enw'r claf y lluniwyd y cynllun ar ei gyfer.

Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer y ddau glaf; fodd bynnag, nid oedd yn glir bob amser p'un a oedd yr asesiadau hynny wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Gwelsom nifer o enghreifftiau lle nad oedd cofnodion wedi'u dyddio na'u llofnodi gan yr unigolyn a oedd yn eu cwblhau. Mae cofnodi gwybodaeth o'r fath yn rhan o'r arfer proffesiynol a ddisgwyllir o ran cadw cofnodion.

Roedd tystiolaeth bod cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu ond roedd y nodiadau a wnaed yn gryno. Nid oedd yn glir p'un a oedd aelodau perthnasol o'r tîm amlddisgyblaethol wedi bod yn gysylltiedig â'r broses.

Ward Fendrod

Roedd rhanwyr yn cael eu defnyddio i drefnu'r cofnodion gofal. Ar y cyfan, roedd hi'n hawdd dod o hyd i wybodaeth yn y cofnodion a adolygwyd gennym.

Nid oedd cofnodion gofal un claf yn cynnwys tystiolaeth bod asesiad, a oedd yn ystyried y meysydd a nodir yn y Mesur, wedi'i gwblhau. Nid oedd cofnod gofal claf arall yn cynnwys asesiad iechyd corfforol wedi'i gwblhau.

Er bod cynlluniau gofal a thriniaeth ysgrifenedig wedi cael eu datblygu, roedd y camau gweithredu a ddisgrifiwyd yn amwys weithiau ac nid oedd yn glir bob amser pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu hyn. Yn ogystal, nid oedd yn glir o gynllun gofal un claf p'un a oedd y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Roedd tystiolaeth yn un o'r cynlluniau bod y claf wedi bod yn gysylltiedig â'r broses gynllunio a'i fod wedi cytuno â'r cynllun. Gwelsom hefyd, pan oedd claf wedi nodi nad oedd am gymryd rhan yn y broses, fod hyn wedi'i gofnodi. Nid oedd yn glir p'un a oedd cydgysylltwyr gofal wedi'u nodi ar gyfer pob claf.

Roedd un o'r cynlluniau yn cyfeirio at enw heblaw am enw'r claf y lluniwyd y cynllun ar ei gyfer.

Roedd tystiolaeth bod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau ysgrifenedig yn disgrifio'r camau a gymerwyd i liniaru'r risgiau hyn bob amser.

Roedd tystiolaeth bod cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu ond roedd y nodiadau a wnaed yn gryno. Roedd y nodiadau a wnaed yng nghofnodion gofal un claf yn dangos nad oedd adolygiadau o'r fath wedi'u cynnal yn aml. Nid oedd yn glir p'un a oedd aelodau perthnasol o'r tîm amlddisgyblaethol wedi bod yn gysylltiedig â'r broses o adolygu cynlluniau gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC ar y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu datblygu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'u bod yn dangos ymagwedd tîm amlddisgyblaethol.

Mae'n rhaid hefyd ystyried y Cod Ymarfer ar gyfer rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010⁹.

⁹ <https://gov.wales/topics/health/nhswales/mental-health-services/law/measure/part2/?lang=cy>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd rhwng rheolwyr y wardiau ac uwch reolwyr y bwrdd iechyd.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom arweinyddiaeth glir a chefnogol ar y ddwy ward.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau archwilio clinigol yn cael eu cyflawni'n rheolaidd. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd ati i ailystyried effeithiolrwydd agweddau ar weithgarwch archwilio ar y ddwy ward.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion cleifion.

Yn ôl y sylwadau a gafwyd yn ystod ein harolygiad, byddai'n fuddiol cael mwy o staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd gan Ward Clyne a Ward Fendrod reolwr ward a oedd yn gyfrifol am reoli pob ward o ddydd i ddydd ac arwain tîm y ward. Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd rhwng rheolwyr y wardiau ac uwch reolwyr y bwrdd iechyd.

Roedd y ddau reolwr ward yn bresennol ar ddiwrnodau'r arolygiad ac roeddent yn gallu egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau. Yn ystod ein harolygiad, roeddent yn weladwy ac yn rhoi cymorth clinigol a rheoli i dimau'r wardiau. Roedd y staff yn canmol y cymorth a'r arweinyddiaeth a roddwyd gan reolwyr y wardiau.

Yn ystod yr arolygiad, pan nodwyd meysydd yr oedd angen eu gwella'n uniongyrchol, ymatebodd y tîm rheoli yn gyflym ac yn effeithiol.

Disgrifiwyd trefniadau cyflenwi ar gyfer y rheolwyr 'y tu allan i oriau'. Roedd hyn yn golygu bod gan dimau'r wardiau uwch aelod o staff yr oedd modd cysylltu ag ef os oedd angen uwchgyfeirio materion yn ystod y nos pan nad oedd yn bosibl aros tan y diwrnod canlynol.

Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau archwilio, gan gynnwys archwiliadau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, dogfennaeth cynllunio gofal, rheoli meddyginiaethau, materion yn ymwneud â'r gweithlu a nifer y cwynion/sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd. Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer rhannu canlyniadau gweithgarwch archwilio gydag uwch reolwyr. Pan nodwyd meysydd i'w gwella, dywedwyd wrthym y byddai cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu a'u monitro gyda'r nod o wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

O ystyried rhai o'n canfyddiadau, mae angen i'r bwrdd iechyd fynd ati i ailystyried effeithiolrwydd agweddau ar weithgarwch archwilio ar y ddwy ward, yn enwedig mewn perthynas ag offer argyfwng a chwblhau cofnodion gofal (gan gynnwys siartiau cyffuriau).

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, eu cofnodi ac ymchwilio iddynt, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau a phryderon o'r fath. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn adolygu'r ffordd y mae'n mynd ati i gyflawni agweddau ar weithgarwch archwilio ar y wardiau er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dangosodd y cyfweiliadau â staff a'r arsylwadau a wnaed yn ystod ein harolygiad fod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion cleifion.

Dangosodd y cofnodion hyfforddi a ddarparwyd gan uwch aelodau o staff y wardiau fod hyfforddiant staff yn cael ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau bod

safonau hyfforddi'r bwrdd iechyd yn cael eu cyflawni. Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd fod y rhan fwyaf o staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

Eglurodd uwch aelodau o staff eu bod yn darparu gwybodaeth am graffter cleifion a lefelau staffio. Roedd yn ymddangos bod anghysondeb o ran y ffordd yr oedd y wardiau yn darparu gwybodaeth am lefelau arsylwi sylfaenol. Gallai hyn effeithio ar y ffordd y caiff gwybodaeth am graffter ei dehongli. Yn ogystal, dangosodd y sylwadau a wnaed nad oedd timau'r wardiau wedi cael unrhyw adborth ystyrlon ar y ffordd yr oedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn cael ei defnyddio.

Yn ôl y sylwadau a gafwyd, roedd y staff o'r farn y byddai mwy o staff yn fuddiol ac yn eu galluogi i dreulio mwy o amser yn gofalu am gleifion heb ymyrraeth. Er enghraifft, soniwyd wrthym am achlysuron lle nad oedd cleifion ar Ward Fendrod (a leolir ar y llawr cyntaf) wedi gallu defnyddio'r iard gan nad oedd unrhyw staff ar gael i'w hebrwng yno. Yn ogystal, roedd yn rhaid i'r staff ar y ddwy ward adael yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn aml er mwyn cyfarch ymwelwyr a'u gadael i mewn i'r wardiau (pan oedd y drysau wedi'u cloi).

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod data ar graffter yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson a bod adborth ystyrlon yn cael ei roi i dimau'r wardiau ar y ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod lefelau staffio ar y wardiau yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal cleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys. Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod rhai eitemau o offer argyfwng ar y ddwy ward (i'w defnyddio pe bai claf yn llewygu) wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben.	Mae'n bosibl na fyddai'r eitemau hyn wedi bod yn ddiogel i'w defnyddio.	Hysbyswyd rheolwyr yr ysbyty o'n canfyddiadau.	Cafodd staff y wardiau gyfarwyddyd gan reolwyr yr ysbyty i wirio'r offer argyfwng er mwyn nodi eitemau a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad dod i ben fel bod modd gosod offer newydd yn eu lle.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed

Ward/uned(au): Clinig Tawe - Ward Clyne a Ward Fendrod

Dyddiad arolygu:19 ac 20 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella uniongyrchol.	-	-	-	-

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Cefn Coed

Ward/uned(au): Clinig Tawe - Ward Clyne a Ward Fendrod

Dyddiad arolygu:19 ac 20 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth hybu iechyd berthnasol a chyfoes.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae amrywiaeth o daflenni Hybu Iechyd ar gael ar Ward Clyne a chaiff y rhain eu hatgynhyrchu ar Ward Fendrod.	Rheolwyr Wardiau	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol: darparu digon o ddodrefn priodol yn ystafelloedd gwely'r cleifion, gan ystyried safonau cyfredol ac	4.1 Gofal Gydag Urddas	●Mae byrddau a chadair wedi'u harchebu ar gyfer pob ystafell wely ac rydym yn aros iddynt gyrraedd.	Rheolwr Gwasanaeth/Rheolwr Ardal	Hydref 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
anghenion gofal unigol cleifion hyrwyddo preifatrwydd cleifion pan fydd cleifion yn eu hystafelloedd gwely sicrhau bod ystafelloedd gwely cleifion yn cael eu cadw ar dymheredd cyfforddus		- Cysylltu â Chyngor Dinas Abertawe ynglŷn â phrosiect celf o ran prosiect celf ystafelloedd gwely - cynnwys cleifion mewn gwaith celf. - Mae llenni newydd wedi'u harchebu (Fendrod) ac rydym yn aros iddynt gyrraedd. - Sicrhau bod paneli matic y drysau arsylwi ar gau fel mater o drefn. - Arolygu'r holl baneli matric i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. - Y tîm cynnal a chadw i fonitro'r system Gwres Canolog newydd.	HON Rheolwr Ardal Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr y Ward Rheolwr Gwasanaeth/ cynnal a chadw Rheolwr Gwasanaeth Cynnal a Chadw	30 Ebrill 2019 Hydref 2018 Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau monitro parhaus â
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod llai o gleifion yn gorfod cael eu hadleoli i unedau eraill pan fydd angen iddynt ddychwelyd ar ôl cyfnod i ffwrdd.		- Ardaloedd lleol i ymgymryd â chynllunio capasiti dyddiol drwy alwad gynadledda i osgoi cysgu y tu allan i'r ysbyty. - Cyfarfodydd Rhyddhau/Llif Cleifion ym mhob ardal leol bob wythnos i gynorthwyo â'r galw ac i reoli	Cyfarwyddwyr Clinigol/ Rheolwyr Gwasanaeth Ardal/ Cyfarwyddwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		capasiti Cyfarwyddwr Nyrsio i fonitro materion sy'n ymwneud â chysgu y tu allan i'r ysbyty		Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	- Arddangos posteri ynglŷn â AGIC yn y mynedfeydd. - Arddangos taflenni (ar gais AGIC 30.7.18)	Rheolwyr Uned HON	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth glir a chynhwysfawr am y ffordd y gallant godi pryder (cwyno) am y gofal y maent wedi'i gael. Wrth ddarparu gwybodaeth, mae'n rhaid ystyried y trefniadau Gweithio i Wella.	6.3 Gwrandao a Dysgu o'r adborth	- Arddangos posteri yn y cynteddau yn ymwneud â: "Gweithio i Wella" - sut i wneud cwyn. - Cadw posteri wedi'u lamineiddio i'w hailosod yn syth os caiff poster ei dynnu neu'n cael ei ddifrodi. - Diweddarau llyfryn gwybodaeth i gleifion i gynnwys gwybodaeth "Gweithio i Wella"	Rheolwyr Uned Rheolwyr Uned Arweinydd Gwella Ansawdd	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rheilen y sedd godi wedi cael ei thynnu.	Rheolwyr Ystadau Rheolwyr Ystadau	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwneud y canlynol: mynd i'r afael â'r peryglon amgylcheddol a nodwyd yn ystod yr arolygiad a lleihau'r risg i ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr cadarnhau y byddai'r seliau tân o amgylch drysau yn effeithiol pe bai tân cwblhau'r gwaith hwnnw sy'n weddill a nodwyd yn yr asesiadau risg o amgylchedd y wardiau nodi'r gwaith glanhau a chynnal a chadw sydd ei angen yn rheolaidd a'i gynnwys mewn rhaglen waith dreigl bodloni ei hun bod y trefniadau awyru ar gyfer yr ystafell smygu yn ddigonol bodloni ei hun bod yr asesiad risg ar gyfer yr ystafell smygu ar Ward Fendrod yn cydymffurfio â threfniadau rheoli risg cyfredol, a chymryd camau cywirol lle y bo angen i hyrwyddo iechyd		- Trwsio'r gwaith plastr sydd wedi'i ddifrodi - cais wedi'i wneud - Trwsio'r difrod ar loriau'r grisiau - cais wedi'i wneud - Rheolwr Cynnal a Chadw/Swyddog Tân i asesu seliau'r drysau. - Uwchraddio 5 ystafell ar bob ward i fodloni safonau gwrthglymu - Casglu'r holl risgiau amgylcheddol heb eu datrys a chamau archwilio sy'n weddill o fewn fformat cynllun gweithredu unigol wedi'i archwilio. Gweithredu'r cynllun hwn ac adolygu camau gweithredu yn fisol. - Amgáu'r teledu yn Ystafell Clyne. - Cytuno ar raglen glanhau/cynnal a chadw ar gyfer Clinig Tawe	Rheolwyr Ystadau Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr Ardal/Rheolwr Gwasanaeth Cyfalaf a rheolwyr wardiau Tawe Rheolwr Gwasanaeth Rheolwyr Ystadau a Chyfleusterau Rheolwr	Diwedd mis Medi 2018 Diwedd mis Medi 2018 Wedi'i gwblhau Diwedd mis Mawrth 2019 Tachwedd 2018 Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
a diogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr sicrhau bod gan staff ffordd addas o alw am gymorth mewn argyfwng bob amser er mwyn budd eu diogelwch nhw a diogelwch cleifion sicrhau bod gan gleifion ffordd addas o alw am gymorth gan staff pan fyddant yn eu hystafelloedd gwely.		- Tîm Cynnal a Chadw i wasanaethu'r system awyru yn yr ystafell smygu - Adolygu asesiad risg ar gyfer smygu – ymgorffori'r gwaith sydd wedi'i drefnu i ddadgomisiynu'r ystafell smygu, gan fabwysiadu methodoleg a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yng Nghlinig Caswell. - Bod staff ar wardiau Clyne a Fendrod yn gallu cael gafael ar y tîm ymateb mewn argyfwng drwy ffonio 2222, i gael help gan staff ar wardiau eraill ar y safle, ac yn y nos gan y Rheolwr Nos a'r Nyrs Gyflenwi sydd wedi'u lleoli yn yr uned asesu. - Staff yn gwisgo larymau personol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.	Gwasanaeth/Rheolwr Ystadau Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr Wardiau ac Arweinwyr Clinigol Rheolwr Wardiau ac arweinwyr clinigol	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau Ionawr 2019 Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		- Adolygu canllawiau ar gyfer defnyddio'r system larwm ystafelloedd yng Nghlinig Tawe. - Nid oes system galw nyrsys yng Nghlinig Tawe. Fodd bynnag, mae "botwm coch" brys ymhob ystafell y gall staff a chleifion ei ddefnyddio i alw am gymorth. Mae'r rhestr wirio derbyn cleifion ar gyfer y ward wedi'i diweddaru i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o leoliad y botwm brys yn eu hystafell. - Yn dilyn asesiadau risg, caiff cleifion sy'n wynebu risg uchel eu rhoi yn yr ystafelloedd gwely agosaf at Weithfan y Nyrsys.	Rheolwr Gwasanaeth Rheolwr Gwasanaeth	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer miniog meddygol yn cael ei storio'n ddiogel mewn cynwysyddion sy'n aros i gael eu gwaredu.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	E-bostio ynglŷn â storio diogel (caeadon ar gau) a anfonwyd ar 31.7.18 i holl Reolwyr y Wardiau/Arweinwyr Clinigol	HON	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu	2.6 Rheoli	Ychwanegu tymheredd yr oergell a'r ystafell glinigol at y cylch archwilio	Arweinydd Gwella Ansawdd	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
manyllion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol: dangos bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan eu gwneuthurwyr Rhaid ystyried Hysbysiad Diogelwch Cleifion PSN 030 / Ebrill 2016, Storio meddyginiaethau yn ddiogel: Cypyrddau sicrhau bod siartiau cyffuriau yn cael eu cwblhau'n gywir gan staff nyrsio yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	Meddyginiaethau	a'u rhoi ar waith bob dydd. - Sicrhau bod yr oergell cyffuriau ar ward Fendrod dan glo ac yn cael ei monitro'n parhaus. - Cwblhau archwiliad misol o'r siartiau cyffuriau. - Archwiliadau chwarterol manwl o gwblhau siartiau cyffuriau gan y Tîm Uwch-reolwyr Ardal	Arweinydd Gwella Ansawdd Rheolwyr Wardiau /Arweinydd Clinigol Dîm Uwch-reolwyr Ardal	Wedi'i gwblhau Dechreuwyd ym mis Gorffennaf 2018 Dechreuwyd ym mis Gorffennaf 2018
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manyllion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod offer argyfwng ar gael ac yn ddiogel	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig	Mae prosesau archwilio wedi cael eu diweddarau ac erbyn hyn maent yn cynnwys gwiriad dyddiad a phresenoldeb ar gyfer yr holl	HON	Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
i'w ddefnyddio bob amser.	meddygol	gyfarpar gan sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn barod i'w ddefnyddio. Mae cyfarpar brys ar ward Clyne bellach wedi'i leoli yn swyddfa'r ward i sicrhau bod modd cael gafael arno'n hawdd.	Rheolwr Ward	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol: sicrhau bod dogfennaeth sy'n gysylltiedig â dogfennaeth gadw statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei chwblhau'n llawn gan aelodau perthnasol o staff a bod y cofnodion a wneir yn ddarllenadwy sicrhau nad yw ffeiliau unigol yn orlawn o ran dogfennaeth.	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	- E-bost at yr holl staff meddygol a chofrestredig ynglŷn â chydymffurfio â gwelliant. - Cyflwyno e-bost yn amlinellu'r gofyniad i gwblhau'r holl ddogfennaeth yn llawn a'i fod yn ddarllenadwy ar gyfer cyfarfod Ansawdd a Diogelwch DU. - Cynnal hapwiriadau o archwiliadau lleol yng Nghefn Coed ynglŷn â dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl. - Gweithredu adolygiadau a rhoi materion ansawdd ar waith ynglŷn â	HON HON Dîm Uwch-reolwyr Ardal Arweinydd Gwella Ansawdd	Wedi'i gwblhau Medi 2018 Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		chynnwys ffeiliau.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC ar y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu datblygu yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'u bod yn dangos ymagwedd tîm aml-ddisgyblaethol. Mae'n rhaid hefyd ystyried y Cod Ymarfer ar gyfer rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	• DU i ddatblygu cynllun gweithredu i wella cydymffurfiaeth Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. • Cefnogi a chofnodi presenoldeb staff yn sesiynau hyfforddi'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth • Cyflwyno Adroddiadau Sicrwydd Ansawdd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn y Grŵp Cynlluniau Gofal a Thriniaeth DU (misol) - camau sy'n ofynnol ar gyfer materion	Cyfarwyddwr Nyrsio Rheolwyr Wardiau Rheolwyr Wardiau Holl reolwyr y wardiau a rheolwyr timau	Tachwedd 2018 Parhaus Dechreuwyd Dechreuwyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn adolygu'r ffordd y mae'n mynd ati i gyflawni agweddau ar weithgarwch archwilio ar y wardiau er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	• Clinig Tawe i roi dull gweithredu cylch archwilio ar waith ar ei holl weithgareddau archwilio. Dull o weithredu i gynnwys diweddariad misol o gynlluniau gweithredu archwilio sengl – cyflwyno adroddiad i Dîm Uwch-reolwyr yn dangos tystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd a'r camau	Tîm Uwch-reolwyr Ardal / Rheolwyr Wardiau	Dechreuwyd ym mis Medi 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gweithredu/amcanion cyfredol ar gyfer cydymffurfio		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod data ar graffter yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gyson a bod adborth ystyrlon yn cael ei roi i dimau'r wardiau ar y ffordd y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio.	7.1 Gweithlu	Mae'r ddwy ward yn rhan o Raglen Aciwtedd Cenedlaethol gyda 1000 o Fywydau. Bydd y Pennaeth Nyrsio yn anfon gwybodaeth yn ôl i'r Wardiau priodol ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn sicrhau bod lefelau staffio ar y wardiau yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal cleifion.		Pan fydd aciwtedd yn mynd y tu hwnt i gapasiti staff, gall y Nyrs â Chyfrifoldeb dros y ward gael staff ychwanegol yn unol â Pholisi'r Uned Gyflenwi. Mae gan yr Alwad Cynhadledda Ddyddiol, sy'n cael ei chadeirio gan aelod o'r Uwch Dîm Rheoli, rôl allweddol wrth fonitro risgiau a staffio ar draws yr holl feysydd mewnol.	Cyfarwyddwr Nyrsio	Wedi'i gwblhau

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Malcolm Jones**

Teitl swydd: Rheolwr Cyffredinol Ardal
Dyddiad: 24 Medi 2018